

# SL(5)629 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau –

- (a) yn caniatáu i aelwyd sy'n cynnwys dim mwy nag un oedolyn (pa un a oes plant yn byw yn yr aelwyd hefyd ai peidio) sy'n byw mewn ardal diogelu iechyd leol ac aelwyd arall sydd hefyd yn byw yn yr ardal, ffurfio aelwyd estynedig dros dro;
- (b) yn caniatáu i ganolfannau sglefrio agor, ond rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre;
- (c) yn gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol.

Caiff aelwyd ffurfio aelwyd estynedig dros dro yn unol â'r diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn pa un a oedd eisoes wedi ffurfio aelwyd estynedig (gyda hyd at dair aelwyd arall) ai peidio cyn i'w hardal ddod yn ardal diogelu iechyd leol.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:



*Mae'r Rheoliadau'n caniatáu i aelwyd un oedolyn mewn ardal diogelu iechyd leol i ffurfio aelwyd estynedig gydag un aelwyd arall yn yr un ardal diogelu iechyd leol. Bydd hyn yn cyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch i'r teulu a bywyd preifat) ac yn galluogi pobl i fwynhau'r hawl hon yn fwy, drwy ffurfio aelwydydd estynedig o dan amgylchiadau o'r fath, ac felly'n lleddfu'r ymyrraeth gyfredol â'r hawliau hynny, sydd wedi ei chyfiawnhau ynddi ei hun, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach a'i bod wedi bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Yn yr un modd, bydd rhestru canolfannau sglefrio fel mangreoedd agored yn caniatáu i hawliau gael eu mwynhau'n fwy, yn benodol o dan Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf.*

## **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*

*Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth i'r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Amlinellais fod bwriad i wneud y newidiadau hyn mewn datganiad i Aelodau a chynhadledd wasg a gynhaliwyd yn gynharach heddiw; mae'r newidiadau arfaethedig wedi eu hadrodd yn eang gan y cyfryngau.*

## **Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Dim.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**7 Hydref 2020**

